Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 28.03.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLOGAETH: Cynnig gwaith i bobl sydd wedi dod i'r DU o'r Wcráin

Gall busnesau rŵan gofrestru i gynnig gwaith i bobl sydd wedi dod i'r DU o'r Wcráin, gan gynnwys swyddi llawn a rhan amser a gwaith gwirfoddol. I gael mwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/offer-work-ukraine

# CYFLE: Swyddogion Amgylcheddol

Mae Arloesi Gwynedd Wledig yn cydweithio gyda Llwyddo'n Lleol 2050 i gynnig y cyfle i fusnesau gael person ifanc i'w cynorthwyo

i leihau eu hôl-troed carbon. Am fwy o wybodaeth, ac i ymgeisio, ewch i:

https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/swyddogion-amgylcheddol/

## DIGWYDDIAD: Gweithdy Gwnaed a Gwlân yn Ffiws Porthmadog

Cynhelir gweithdy dwy ran am ddim, ar sut i ddefnyddio gwlân ac offer uwch-dechnoleg Ffiws Porthmadog i greu cynnyrch unigryw, ar 29 Mawrth 2022 / 5 Ebrill 2022 gan y Prosiect Gwnaed â Gwlân. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3wDuEpV

## COVID-19: Potel 5 litr o gel diheintio dwylo am ddim

Mae gan Cyngor Gwynedd gyflenwad o ddiheintydd dwylo, sydd angen ei ddefnyddio cyn Medi 2022, ar gael i fusnesau lleol am ddim ar sail y cyntaf i'r felin. Mae busnesau lleol eisoes wedi derbyn 250 o foteli. Os oes gennych ddiddordeb mewn derbyn cyflenwad, fydd yn cael ei ddosbarthu gan y Cyngor yn uniongyrchol i'ch busnes, cysylltwch â: PPEcymunedol@gwynedd.llyw.cymru gan nodi eich enw, rhif ffôn cyswllt, cyfeiriad ar gyfer danfon y nwyddau (gan gynnwys cod post) a'r amseroedd o'r wythnos y bydd rhywun yn y lleoliad.

## CEFNOGAETH: Be the Business – UK

Mae Be the Business – UK yn helpu arweinwyr busnesau BBaChau i wella perfformiad eu busnesau. Mae ar gael i fusnesau bach a chanolig gydag o leiaf un gweithiwr wedi'i leoli yn unrhyw le yn y DU ac mae'n cynnig mentora a chymorth ar-lein am ddim. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.gov.uk/business-finance-support/be-the-business-uk

# TRETH: Wythnos ar ôl i dalu bil treth Hunanasesiad

Mae CThEM wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg yn atgoffa cwsmeriaid Hunanasesiad bod ganddynt tan 1 Ebrill 2022 i dalu eu bil treth ar gyfer 2020 i 2021 neu sefydlu cynllun talu i osgoi cael cosb. Mae mwy ar hyn ar:

https://www.gov.uk/government/news/one-week-left-to-pay-your-self-assessment-tax-bill

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru